| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Mehefin 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Price** |
| **Teitl:** | **Penodiadau i Bwyllgorau a Chydbwysedd Gwleidyddol** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar newidiadau i aelodaeth pwyllgorau'r Cyngor a phenodiadau a wneir gan y Cyngor i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Y Cyngor llawn sydd â'r dasg o benodi cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Bydd manylu ar sefyllfa pwyllgorau eraill yn hysbysu aelodau am sefyllfa eu pwyllgorau ac am unrhyw gamau sydd angen eu cymryd i gynnal cydbwysedd gwleidyddol y pwyllgorau hyn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai'r Cyngor nodi'r materion a godwyd a phenodi'r cadeirydd a deg aelod arall i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2014/2015.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

<u>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</u>

4.1 Yn y Cyfarfod Blynyddol ar 15 Mai, penderfynodd y Cyngor mai aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd newydd a oedd yn ofynnol dan y Mesur Llywodraeth Leol fyddai 11 o gynghorwyr <u>na</u> fyddai'n cynnwys aelod o'r Cabinet.

4.2 Mae Adran 11 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor benodi pwyllgor i adolygu a yw darpariaeth yr awdurdod yn ddigonol o ran staff, gofod ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â darpariaeth o'r fath.

4.3 Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gael eu penodi gan y Cyngor Llawn. Ni fydd unrhyw aelodau'n cael eu cyfethol. Dan y Mesur, ni all mwy nac un aelod o'r Cabinet eistedd ar y Pwyllgor (ac ni all hyn gynnwys yr Arweinydd), ond ym mis Mai 2012, penderfynodd y Cyngor na fyddai'r aelodaeth yn cynnwys unrhyw aelodau o'r Cabinet.

4.4 Rhaid cael cydbwysedd gwleidyddol ar y Pwyllgor a rhaid i’r Cyngor benodi ei gadeirydd na all fod yn aelod o un o’r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cabinet. Yn Sir Ddinbych, mae hyn yn golygu y bydd y cadeirydd yn aelod o’r grŵp Llafur. Y grŵp Llafur sydd wedi enwebu'r cadeirydd presennol, y Cynghorydd Barry Mellor.

4.5 Aelodau presennol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw’r Cynghorwyr Bill Cowie, Stuart Davies, Martyn Holland, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Merfyn Parry ac Arwel Roberts. Mae’r Cynghorydd Butterfield wedi cymryd lle’r Cynghorydd Gareth Sandilands ac mae sedd wag Plaid Cymru (Gadawodd y Cynghorydd Kensler y Pwyllgor ar ôl cael ei phenodi’n Is-gadeirydd y Cyngor fis diwethaf) yn cael ei llenwi gan y Cynghorydd Cefyn Williams.

<u>Cadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio</u>

4.6 Mae Mesur 2011 hefyd yn rheoli’r broses o benodi cadeiryddion y Pwyllgor Craffu. Yn Sir Ddinbych mae hyn yn golygu fod dwy o’r tair swydd cadeirydd wedi cael eu dyrannu i’r grŵp Llafur a bod y drydedd swydd wedi’i dyrannu i’r tri grŵp gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cabinet. Nid yw'r grwpiau penodi wedi hysbysu’r Gwasanaethau Democrataidd am unrhyw newidiadau i drefniadau cadeirio 2013/14.

<u>Seddi ar Bwyllgorau</u>

4.7 Mae Atodiad 1 yn rhoi golwg fesul pwyllgor ar y gofynion ynghylch cydbwysedd gwleidyddol a seddi gwag.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae dosbarthu seddi ar bwyllgorau mewn modd teg yn hanfodol i aelodau etholedig a gwaith democrataidd y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid yw’r adroddiad hwn yn effeithio ar wasanaethau eraill. Gweler adran 8 i gael datganiad ar gostau.

## 7. Beth yw'r prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

Nid yw’n ofynnol gan nad yw’r adroddiad hwn yn cyflwyno polisïau, gweithdrefnau na chamau gweithredu newydd a fyddai'n cael effaith ar faterion cydraddoldeb.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Cynhelir ymgynghori rheolaidd gydag arweinwyr grwpiau ar faterion yn ymwneud ag aelodaeth pwyllgorau sy’n effeithio ar eu grwpiau. Mae’r Cyngor hefyd yn derbyn adroddiadau ar gydbwysedd gwleidyddol o leiaf unwaith y flwyddyn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes costau uniongyrchol yn deillio o’r adroddiad hwn. Cytunwyd eisoes ar y gydnabyddiaeth ariannol i aelodau am gyflawni swyddogaethau penodol e.e. eistedd ar y Cabinet neu gadeirio pwyllgor. Nid yw swydd cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn derbyn lwfans cadeirio.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Amherthnasol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.